**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Gwastraff Pecynwaith (Casglu ac Adrodd am Ddata) (Cymru) 2023**

**Pwynt Craffu Technegol 1:**

Nodir y pwynt hwn. Mae'r gwall yn un bach iawn, a byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau hyn eu cywiro i ymdrin â'r gwall hwn cyn gwneud y Rheoliadau.

Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn tynnu sylw aelodau'r Senedd at hyn yn y ddadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn a gynhelir ar 11 Gorffennaf. Mae hyn yn unol â'r camau a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn ei ohebiaeth â chi ar 18 Ionawr a 15 Chwefror 2023.

**Pwynt Craffu Technegol 3:**

O ystyried bod y term "brand" ond yn cael ei ddefnyddio mewn un ddarpariaeth, yn y diffiniadau o "perchennog brand" a "pecynwaith wedi ei frandio" o dan reoliad 8(13), mae'r term "brand" wedi ei ddiffinio yn yr un ddarpariaeth. Mae hyn yn unol â pharagraff 4.14(1) o ganllawiau drafftio Llywodraeth Cymru "Drafftio Deddfau i Gymru".

Gan hynny, ystyrir nad oes angen diwygiad i ymdrin â'r pwynt craffu technegol hwn.

**Pwyntiau Craffu Technegol 4 a 5:**

Nodir y pwyntiau hyn. Mae'r gwallau hyn yn rhai bach iawn, a byddwn yn sicrhau y caiff y Rheoliadau hyn eu cywiro i ymdrin â'r gwallau hyn cyn gwneud y Rheoliadau.

Bydd y Gweinidog Newid Hinsawdd yn tynnu sylw aelodau'r Senedd at hyn yn y ddadl ar y Rheoliadau yn y Cyfarfod Llawn a gynhelir ar 11 Gorffennaf. Mae hyn yn unol â'r camau a nodwyd gan y Cwnsler Cyffredinol yn ei ohebiaeth â chi ar 18 Ionawr a 15 Chwefror 2023.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 13:**

Cafodd y Rheoliadau hyn eu gosod a'u tynnu yn ôl ym mis Mawrth 2023 oherwydd sylwadau a gafwyd gan y Pwyllgor ar ddrafftio technegol y testun. Yn y cyfnod rhwng tynnu'r Rheoliadau yn ôl a'u hailosod, aethom ati i drefnu prosesau sicrhau ansawdd digonol o ran drafftio cyfreithiol a chyfieithu er mwyn lleihau gwallau sylweddol. Gwnaethom hefyd gysylltu â Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Gogledd Iwerddon a Llywodraeth y DU i sicrhau bod agweddau ar y polisïau yn eglur er mwyn cynnal cysondeb rheoliadol.